Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

# Bwletin GwE

**DYDDIAD I'CH DYDDIADUR**

## CYNHADLEDD FLYNYDDOL GENEDLAETHOL GWELLA A GWERTHUSO

**DYDD IAU, 28 TACHWEDD 2019**

RHAGOR O FANYLION I DDILYN YN FUAN.

## CYNNIG PROFFESIYNOL GwE A G6

### NODYN ATGOFFA

**STAFF A CHYMORTHYDDION NEWYDD**

Sicrhewch fod pob aelod staff yn cofrestru a chreu cyfrif personol yn G6. Bydd gofyn i'r staff gael cyfrif eu hunain cyn i aelodau staff sydd â mynediad llawn gofrestru ar eu rhan.

**CYFRINEIRIAU**

Os ydych yn cael trafferth mewngofnodi i G6 ac mae arnoch angen cyfrinair newydd, cysylltwch â heddwenvaughanroberts@gwegogledd.cymru

**BLWCH GOFYNION ARBENNIG**

Nodwch mai man i restru gofynion arbennig e.e. anghenion corfforol / dietegol yn unig yw'r blwch hwn wrth gofrestru i fynychu digwyddiad. **Ni** ddylid rhestru enwau staff ychwanegol ar gyfer mynychu'r hyfforddiant. Ni allwn warantu y bydd lle i'r unigolion fynychu'r cwrs gan nad ydynt wedi'u cofrestru.

**LEFELAU / HAWLIAU MYNEDIAD**

Mae dau fath o fynediad ar gyfer staff ysgolion i G6.
**Mynediad Llawn:** Dyma'r hawl mynediad sydd gan Bennaeth pob ysgol. Mae ganddynt fynediad a'r gallu i olygu pob modiwl. Bydd angen yr hawl yma ar eich staff er mwyn golygu'r adran ADY Cymru.
**Mynediad Arferol:** Dyma'r hawl mynediad sydd gan Athrawon / Cymorthyddion Dysgu / Staff Gweinyddol ac ati. Mae ganddynt fynediad at Cynnig GwE, Tudalen wybodaeth Cwricwlwm i Gymru, Tudalen wybodaeth ADY Cymru ac Arfer Llwyddiannus yn unig. Er hynny, mae modd i Bennaeth roi mynediad darllen yn unig neu olygu i staff arferol i'r Blaenoriaethau. Mae arweiniad ar fynediad rhannol i Flaenoriaethau yn y llyfrgell adnoddau o fewn y ffolder cyffredin.

## Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [https://g6.gwegogledd.cymru].

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.**

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

| HYFFORDDIANT | DYDDIAD | LLEOLIAD | CYFRWNG |
|---|---|---|---|
| NorthWORTS [Sesiwn Bore - Ysgolion Môn a Gwynedd] - Prosiect Gweithredu Traws-Ranbarthol Headsprout 2019-20 | 02/10/2019 | Galeri, Caernarfon | Saesneg * |
| Llythrennedd a rhifedd trawsgwricwlaidd yn CA2 [lleoliad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru] | 03/10/2019 | **BEAUFORT PARK, YR WYDDGRUG** ***LLEOLIAD NEWYDD*** | Dwyieithog |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Cymorthyddion Dysgu CS Conwy, yn Saesneg - Ysgol Nant y Groes) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 07/10/2019 | Ysgol Nant y Groes, Bae Colwyn | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Cymorthyddion CS Conwy, yn Gymraeg - Ysgol Porth y Felin) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 07/10/2019 | Ysgol Porth y Felin, Conwy | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon Conwy, yn Saesneg - Ysgol Nant y Groes) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 07/10/2019 | Ysgol Nant y Groes, Bae Colwyn | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon Conwy, yn Gymraeg - Ysgol Porth y Felin) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 07/10/2019 | Ysgol Porth y Felin, Conwy | Cymraeg |
| Datblygu'r Arfer Orau wrth Addysgu Saesneg - Addas ar gyfer : Athrawon Saesneg sydd â diddordeb neilltuol mewn ymchwil a methodoleg | 07/10/2019 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| Rhaglen Sefydlu ar gyfer Cymorthyddion Dysgu Newydd (Carfan B - GRŴP SAESNEG - Beaufort Park Hotel) | 08/10/2019 | Beaufort Park Hotel, Yr Wyddgrug | Saesneg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaglen Sefydlu ar gyfer Cymorthyddion Dysgu Newydd (Carfan B - GRŴP CYMRAEG - Beaufort Park Hotel) | 08/10/2019 | Beaufort Park Hotel, Yr Wyddgrug | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD, yn Gymraeg – Linden House) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 09/10/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD, yn Saesneg - OpTIC) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 09/10/2019 | OpTIC, Llanelwy | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon, yn Gymraeg – Linden House) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 09/10/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon, yn Saesneg - OpTIC) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 09/10/2019 | OpTIC, Llanelwy | Saesneg |
| SAFMEDS: Gwella Ansawdd y Ddarpariaeth mewn Rhifedd [Yr Wyddgrug, sesiwn bore] | 09/10/2019 | Beaufort Park Hotel, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| SAFMEDS: Gwella Ansawdd y Ddarpariaeth mewn Rhifedd [Yr Wyddgrug, sesiwn pnawn] | 09/10/2019 | Beaufort Park Hotel, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| Llythrennedd a rhifedd trawsgwricwlaidd yn CA2 [lleoliad yng nghanol Gogledd Cymru] | 14/10/2019 | Lleoliad i'w gadarnhau | Dwyieithog |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD, yn Saesneg - Alyn Waters) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 14/10/2019 | Parc Gwledig Dyfroedd Alun, Gwersyllt, Wrecsam | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD, yn Gymraeg - Coed y Brenin) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 14/10/2019 | Coed-y-Brenin, Dolgellau | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon, yn Gymraeg - Coed y Brenin) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 14/10/2019 | Coed-y-Brenin, Dolgellau | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon, yn Saesneg - Alyn Waters) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 14/10/2019 | Parc Gwledig Dyfroedd Alun, Gwersyllt, Wrecsam | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD, yn Saesneg – Linden House) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 15/10/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Galar a Phrofedigaeth mewn ysgolion - Child Bereavement UK | 15/10/2019 | Porth Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD - Oriel Môn) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 15/10/2019 | Oriel Môn, Llangefni | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon, yn Saesneg – Linden House) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 15/10/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon, yn Gymraeg - Oriel Môn) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 15/10/2019 | Oriel Môn, Llangefni | Cymraeg |
| Cyfarfod Rhwydwaith ar gyfer Arweinwyr Llythrennedd Uwchradd Conwy / Dinbych | 16/10/2019 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| Cyfarfod Rhwydwaith i Arweinwyr Llythrennedd Uwchradd Fflint / Wrecsam | 17/10/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Llythrennedd a rhifedd trawsgwricwlaidd yn CA2 [lleoliad yng Ngogledd Orllewin Cymru] | 17/10/2019 | Lleoliad i'w gadarnhau | Dwyieithog |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer CD, yn Gymraeg - Gwesty'r Celt) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 17/10/2019 | Gwesty'r Celt, Caernarfon | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (ar gyfer Athrawon, yn Gymraeg - Gwesty'r Celt) Gwreiddio'r 12 egwyddor addysgegol yn ein harferion beunyddiol | 17/10/2019 | Gwesty'r Celt, Caernarfon | Cymraeg |
| SAFMEDS: Gwella Ansawdd y Ddarpariaeth mewn Rhifedd [Caernarfon, sesiwn bore] | 21/10/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Dwyieithog |
| Datblygu Llafaredd ar draws y Cwricwlwm | 21/10/2019 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno | Saesneg |
| Gwella effaith ymyrraeth Llythrennedd - Addas ar gyfer : Cymorthyddion dysgu / Athrawon â chyfrifoldeb dros ddarparu ymyrraeth Llythrennedd i ddysgwyr CA3 | 21/10/2019 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| SAFMEDS: Gwella Ansawdd y Ddarpariaeth mewn Rhifedd [Plas Menai, sesiwn pnawn] | 21/10/2019 | Plas Menai, Caernarfon | Dwyieithog |
| SAFMEDS: Gwella Ansawdd y Ddarpariaeth mewn Rhifedd [Wrecsam, sesiwn bore] | 22/10/2019 | Ysgol y Grango, Wrecsam | Dwyieithog |
| Iechyd a Lles; Cadw'n dysgwyr a'n staff yn saff rhag peryglon y byd digidol [Canolfan Catrin Finch, Wrecsam] | 22/10/2019 | Canolfan Catrin Finch, Wrecsam | Dwyieithog |
| SAFMEDS: Gwella Ansawdd y Ddarpariaeth mewn Rhifedd [Wrecsam, sesiwn pnawn] | 22/10/2019 | Ysgol y Grango, Wrecsam | Dwyieithog |
| Ysgrifennu MAT: Siarad & Ysgrifennu'n Effeithiol yn CA2 | 23/10/2019 | Venue Cymru, Llandudno | Dwyieithog |
| IZak9: Cydweithio gyda grwpiau o ddysgwyr sy'n tangyflawni mewn mathemateg, trwy ddefnyddio IZak9 | 23/10/2019 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| Iechyd a Lles; Cadw'n dysgwyr a'n staff yn saff rhag peryglon y byd digidol [OpTIC, Llanelwy] | 23/10/2019 | OpTIC, Llanelwy | Dwyieithog |
| Cyfarfod Tymor yr Hydref Rhwydwaith Arweinwyr Pwnc Gwyddoniaeth Uwchradd | 24/10/2019 | Canolfan Fusnes Conwy | Dwyieithog |

* Adnoddau dwyieithog ar gael.    * Sesiwn Gwyll [Ar ôl ysgol]

# RHAGLENNI PROFFESIYNOL

## LLWYBR DYSGU CYMORTHYDDION DYSGU

Mae rhaglenni hyfforddiant cenedlaethol 2019-20 ar gyfer cymorthyddion dysgu yn cychwyn yn awr! Mae Rhaglen Sefydlu i gymorthyddion newydd (yn eu swydd ers llai na dwy flynedd) a Rhaglen i Gymorthyddion Wrth eu Gwaith (yn eu swydd ers dwy flynedd neu fwy). Telir costau llanw i'ch ysgol. Cofrestrwch drwy G6. Am ragor o wybodaeth, cliciwch yma.

Cymorthyddion Dysgu newydd eu penodi → Cymorthyddion Dysgu wrth eu gwaith → Darpar CALU → CALU → Cymorthyddion Dysgu Arbenigol

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol
Regional School Improvement Consortia

# Y Gymraeg



## Cwrs Sabothol y Gymraeg [Lefel Sylfaen]

**DYDDIAD CAU ANFON CEISIADAU: 1 TACHWEDD 2019**

Cwrs ar gyfer athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg sydd â gafael ar y Gymraeg sy'n addysgu Cymraeg fel ail iaith ac yn medru defnyddio'r iaith i gyfarch, ond sydd eisiau magu hyder i gyflwyno'r Gymraeg i'r plant a datblygu adnoddau Cymraeg i'r ysgol.

**Cliciwch yma** am ragor o wybodaeth.

# Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

***Gweler isod manylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:***

## BORE AGORED YSGOL EIRIOLWYR NUMICON

### DYDD MERCHER, 13 TACHWEDD 2019 – 9:30AM – 11:30AM

Dewch draw i fore agored Ysgol Eiriolwyr Numicon, i weld holl ddulliau llwyddiannus ysgol-gyfan Numicon ar waith.

**LLEOLIAD:** Ysgol Tŷ Ffynnon, King George Street, Shotton, Glannau Dyfrdwy, CH5 1HX

Archebwch eich lle **yma**.

Rhagor o fanylion ar gael **yma** [poster Saesneg yn unig].

## DIWRNOD AGORED MANTELL YR ARBENIGWR

I'w gynnal yn Ysgol Cae'r Nant, Cei Connah. CH5 4QL [Statws ymarferydd].

Dydd Mercher, 16 Hydref 2019 rhwng 9:30yb a 2:30yp

**Cyfle i'w weld ar waith, gan gynnwys ymchwil i addysgeg MyA, gweld arfer dda a theithiau dysgu.**

Am wybodaeth bellach ffoniwch 01244 830708

Cyswllt: Karen Roberts.

Costau'r cwrs: £40 y pen.

Ni ddarperir cinio.

## DYSGU GWELADWY

**[VISIBLE LEARNING]**

Fe'ch gwahoddir i fore agored yn Ysgol Merllyn, Bagillt, Fflint CH6 6BB

**Dydd Mercher, 16 Hydref 2019 rhwng 9:30yb a 12:30yp**

Digwyddiad am ddim.

Cyfle i weld egwyddorion Dysgu Gweladwy ar waith a'i effaith ar ddysgwyr, yn cynnwys sgwrs gan y Pennaeth, trafod gyda disgyblion ac athrawon, gweld dosbarthiadau

**Am wybodaeth bellach, ffoniwch: 01352 733366**

**Cysylltwch â: Tracy Jones**

## HYFFORDDIANT PORI DRWY STORI MEITHRIN A DERBYN WRECSAM

**DYDD MERCHER, 6 TACHWEDD 2019 – 15:45 – 17:30**
**PENYGELLI COMMUNITY PRIMARY SCHOOL**



Hyfforddiant Pori Drwy Stori Meithrin a Derbyn [Cyfrwng Saesneg] - **RHAD AC AM DDIM**
Addas ar gyfer ymarferwyr sydd yn gweithio gyda phlant Meithrin a Derbyn mewn ysgolion a lleoliadau.
**COFRESTRWCH YMA**.

## CYNHADLEDD TECHNOCAMPS

**DYDD IAU, 17 HYDREF 2019 – PRIFYSGOL BANGOR**

Mae Technocamps yn cynnig cynhadledd hanner diwrnod am ddim i athrawon. Ymunwch â thîm Technocamps i gymryd rhan mewn gweithdai ymarferol ac i gael cyfle i weld adnoddau sydd ar gael am ddim ar y we.

**Cliciwch yma** i gofrestru.

# SECONDIADAU GYDA LLYWODRAETH CYMRU

### CYNGHORYDD ARBENIGOL: Y GYMRAEG, Y CWRICWLWM A DYSGU PROFFESIYNOL

Mae'r prif flaenoriaethau yn cynnwys:

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Gymraeg yng nghyd-destun Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Cefnogi dull wedi'i seilio ar systemau ar gyfer nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050
- Cefnogi Llywodraeth Cymru, ein Prifysgolion a'r system ehangach wrth recriwtio a chadw athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac athrawon Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

### CYNGHORYDD ARBENIGOL: YSGOLION FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU

Mae'r prif flaenoriaethau'n cynnwys:

- Hybu model Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar draws yr haen ganol a'r ysgolion
- Cefnogi rhanbarthau a'r ysgolion wrth weithredu'r model ar lefel yr ysgol
- Cynghori Llywodraeth Cymru ar faterion sy'n ymwneud â datblygu polisïau a sicrhau adnoddau ar gyfer rhoi'r model ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ar waith ar draws ein system
- Cydweithio â'r Prifysgolion sy'n darparu addysg gychwynnol i athrawon er mwyn sicrhau bod agenda Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu yn cael effaith gadarnhaol o ran y berthynas rhwng Prifysgolion ac ysgolion.

Maent yn bwriadu dechrau'r secondiadau hyn cyn gynted ag y bo modd, ac iddynt gael eu cynnal am ddwy flynedd o'r dyddiad y byddant yn dechrau.

Dylai'r cyd-weithwyr hynny sy'n dymuno mynegi diddordeb yn y naill gyfle neu'r llall anfon e-bost at **Dr Kevin Palmer**, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol: kevin.palmer003@gov.wales Dylent nodi eu diddordeb ac amlinellu eu profiad a'u cymwysterau i ymgymryd â'r swydd mewn llythyr o ddim mwy na 500 gair.

**DYDDIAD CAU: CANOL DYDD, DYDD GWENER, 4 HYDREF 2019**



Rydym wedi diweddaru ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi **yma**

**Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â bwletin@gwegogledd.cymru yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.**